

Cofnodion cyfarfod y **Pwyllgor Amwynderau** a gynhaliwyd
Nos Lun, 7 Rhagfyr 2020 am 7:00pm trwy gyfrwng Zoom.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Jim Bryan, Menna Jones, Anne Roberts, Mike van der Eijk a Heather Williams.

121. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Gavin Harris a Dave Snape. Enwebwyd y Cynghorydd Anne Roberts i gadeirio'r cyfarfod yn absenoldeb y Cadeirydd.

122. DATGAN BUDDIANNAU

Ni chafwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

123. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

PENDERFYNWYD: *cadarnhau fod cofnodion y Pwyllgor Amwynderau a gynhaliwyd ar 2 Tachwedd 2020 yn gofnodion cywir.*

124. MATERION YN CODI

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

125. ADNEWYDDU COEDEN LLWYBR CELF

Esboniodd y Clerc ei bod hi wedi cysylltu gyda thri chwmni i ddarparu pris am adnewyddu'r goeden a system dyfrio'r gwreiddiau. Roedd Gwasanaethau Coed Cymru wedi ateb yn dweud ei bod yn adeg hynod o brysur ac na ellid darparu dyfynbris ar hyn o bryd. Ni dderbyniwyd ateb gan y cwmnïau eraill.

PENDERFYNWYD: *aros am bris gan Wasanaethau Coed Cymru ac anfon nodyn atgoffa i'r ddau gwmni arall.*

126. STATWS RHUTHUN FEL TREF SY'N CROESAWU BYSIAU MOETHUS

Roedd y Cynghorydd Anne Roberts wedi gofyn i'r eitem hon gael ei chynnwys ar yr agenda. Atgoffodd yr Aelod y dyfarniad statws Tref sy'n Croesawu Bysiau Moethus i Rhuthun ym mis Ebrill 2019 am gyfnod o dair blynedd, ond oherwydd cyfyngiadau Covid-19 nid oedd y dref wedi medru elwa o hyn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Awgrymodd gysylltu gyda'r corff dyfarnu i ofyn am ymestyn cyfnod y dyfarniad.

PENDERFYNWYD: *cysylltu gyda chorff dyfarnu'r statws i ofyn am ymestyn cyfnod y dyfarniad.*

127. ADOLYGU MEINCIAU CYHOEDDUS

Cyfeiriodd yr aelodau at nifer o feinciau mewn cyflwr gwael, rhai angen eu trwsio ac eraill angen eu paentio. Gofynnodd y Cynghorydd Menna Jones am ailosod main ym Mhen Stryt. Roedd yr aelodau'n dymuno rhesymoli lleoliad y meinciau hefyd, pan fyddai'r gwaith yn cael ei wneud yn y Gwanwyn.

PENDERFYNWYD: *bwrw ymlaen gyda gwaith rhesymoli, trwsio a phaentio'r meinciau cyhoeddus yn y Gwanwyn.*

128. GRŴP TREF DACLUS

Hysbyswyd yr aelodau y byddai'r Grŵp Tref Daclus yn cyfarfod eto'n y Flwyddyn Newydd, gan gadw at ganllawiau cadw pellter cymdeithasol. Byddai rhagor o wybodaeth yn cael ei roi ar dudalen Gweplyfr y Grŵp Tref Daclus.

PENDERFYNWYD: *nodi'r diweddariad.*

129. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD: *mai dyddiad y cyfarfod nesaf fyddai nos Lun, 11 Ionawr 2021 am 7:00pm.*